| | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad creu:** | 26/03/21 |
| **Dyddiad cyhoeddi:** | 21/12/23 |
| **Rhif y fersiwn:** | 1.01 |

| | |
|---|---|
| **Maes Gwasanaeth:** | **Gwasanaethau Cymdeithasol -** Gofalu am Gaerffili |
| **Maes Gwaith:** | Gofalu am Gaerffili |
| **Manylion Cyswllt:** | 01443 811490<br>GofaluAmGaerffili@caerffili.gov.uk |
| **Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Gwasanaeth Gofalu Am Gaerffili |
| **Disgrifiad o'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Bydd yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn egluro sut y bydd gwasanaeth Gofalu am Gaerffili, sy'n darparu un pwynt cyswllt ar gyfer gwasanaethau cymorth yn ardal Bwrdeistref Sirol Caerffili, yn defnyddio'ch data personol. |

# Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth

## Y diben a'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth

### Diben y gwaith prosesu

Mae'n amhosibl i bawb wybod am yr holl wasanaethau sydd ar gael i gynorthwyo lles pobl yn ardal Bwrdeistref Caerffili. Bydd gwasanaeth Gofalu am Gaerffili yn darparu drws blaen i wasanaethau i ddarparu un pwynt cyswllt ar gyfer gwybodaeth, cyngor a chymorth i sicrhau bod anghenion trigolion yn cael eu diwallu'n briodol.

- Os oes angen Gwybodaeth, ni fyddwn yn cofnodi unrhyw wybodaeth amdanoch chi ar ein systemau.
- Os oes angen Cyngor bydd angen i ni gofnodi eich enw, manylion cyswllt a natur y cyngor a ddarperir ar gyfer ein cofnodion.
- Os oes angen Cymorth (gan gynnwys atgyfeirio at wasanaeth neu ddarpariaeth gymunedol arall), gyda'ch caniatâd, byddwn yn casglu gwybodaeth berthnasol amdanoch er mwyn asesu eich anghenion er mwyn cynnig y cymorth mwyaf priodol. Efallai y bydd y gwasanaeth cymorth a ddyrennir yn wasanaeth CBSC, neu wirfoddolwr neu efallai y bydd gwasanaeth arall yn cael ei gynnig gan sefydliad arall ond bydd ganddynt yr arbenigedd/sgiliau cywir i ddiwallu'r anghenion hynny a nodwyd.

Ar ôl cwblhau'ch gwaith gyda'r gwasanaeth cymorth, bydd adborth fel sut yr ydych wedi ymgysylltu â hwy a sut y cafodd eich anghenion eu diwallu yn cael ei rannu yn ôl i wasanaeth Gofalu am Gaerffili.

Efallai y byddwn hefyd yn defnyddio'ch gwybodaeth at ddibenion monitro a gwerthuso. O bryd i'w gilydd, efallai y byddwn ni'n cysylltu â chi ac yn eich gwahodd chi i ddweud wrthym ni am eich profiad o'r gwasanaeth a gawsoch chi gennym ni fel y gallwn ni adolygu a gwella ein darpariaeth gwasanaeth. Efallai y byddwn ni hefyd yn ymgysylltu â sefydliad allanol i gynnal yr adolygiad hwn.

Os credir y gallai plentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed fod mewn perygl, mae dyletswydd gyfreithiol arnom ni i ymchwilio a dilynir Gweithdrefnau Diogelu Cymru, a allai arwain at ymchwiliad ac asesiad ffurfiol. Gall hyn gynnwys sawl asiantaeth fel yr heddlu, iechyd ac addysg.

**Sail gyfreithiol ar gyfer y gwaith prosesu**

Mae rhwymedigaeth tasg gyhoeddus i brosesu'ch gwybodaeth y manylir arni isod:

Er mwyn i brosesu data personol fod yn gyfreithlon o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016, mae'n rhaid nodi amod dilys o Erthygl 6 o'r Rheoliad, a amlinellir isod (nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw):

(1)(e) - processing is necessary for the performance of a task carried out in the public interest or in the exercise of official authority vested in the controller;

Mae deddfwriaeth Diogelu Data yn darparu amddiffyniad ychwanegol ar gyfer rhai dosbarthiadau o wybodaeth o'r enw 'data personol categori arbennig', sy'n cynnwys gwybodaeth am eich iechyd corfforol neu iechyd meddwl. Os bydd unrhyw wybodaeth yn dod o fewn y diffiniad o ddata personol categori arbennig, yna rhaid nodi amod ychwanegol o Erthygl 9 o'r Rheoliadau, fel yr amlinellir isod (nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw):

2(g) - processing is necessary for reasons of substantial public interest, on the basis of Union or Member State law which shall be proportionate to the aim pursued, respect the essence of the right to data protection and provide for suitable and specific measures to safeguard the fundamental rights and the interests of the data subject;

Mae angen amod ychwanegol ar yr amod uchod o Ddeddf Diogelu Data 2018, Atodlen 2

6 (1) This condition is met if the processing—
- (a) is necessary for a purpose listed in sub-paragraph (2), and
- (b) is necessary for reasons of substantial public interest.

(2) Those purposes are—
- (a) the exercise of a function conferred on a person by an enactment or rule of law;
- (b) the exercise of a function of the Crown, a Minister of the Crown or a government department.

Nodir y deddfiadau neu'r rheolau cyfraith sy'n berthnasol i'r amod uchod yn:

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

## Ffynhonnell a'r math o wybodaeth sy'n cael ei phrosesu

**Categorïau o ddata personol a geir**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi cael y categorïau canlynol o ran eich data personol:

- Enw, cyfeiriad, dyddiad geni a manylion cyswllt yr unigolyn sydd angen cymorth
- Amgylchiadau/anghenion personol perthnasol yr unigolyn sydd angen cymorth (a all gynnwys manylion ei gyllid,iechyd corfforol neu iechyd meddwl)
- Canlyniad yr asesiad gan gynnwys y gwasanaethau yr atgyfeirir atynt

- Adborth ar ymgysylltu ac os yw anghenion wedi'u diwallu
- Enw a manylion cyswllt y person sy'n gwneud yr atgyfeiriad at wasanaeth Gofalu am Gaerffili (os yw'n wahanol i'r peron sydd angen cymorth).

**Ffynhonnell y data personol**

- Chi (neu'r person sy'n gwneud yr atgyfeiriad at wasanaeth Gofalu am Gaerffili ar eich rhan)
- Gwasanaeth Gofalu am Gaerffili
- Y gwasanaethau yr ydych chi wedi cael eich atgyfeirio atynt

## Pwy fydd yn cael mynediad at eich gwybodaeth?

**Manylion y Rheolydd Data a'r Swyddog Diogelu Data**

Y Rheolydd Data ar gyfer eich gwybodaeth yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Y Swyddog Diogelu Data yw:

Ms Joanne Jones
Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol/Swyddog Diogelu Data
E-bost: DiogeluData@caerffili.gov.uk
Ffôn: 01443 864322

Efallai y bydd Rheolwyr Data eraill hefyd yn gyfrifol am eich gwybodaeth, yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol e.e. os ydych wedi cytuno i gael eich atgyfeirio at wasanaeth arall. Cysylltwch â'r Maes Gwasanaeth y manylir arno ar frig yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn i gael rhagor o wybodaeth.

**Manylion am brif ddefnyddwyr eich gwybodaeth**

Prif ddefnyddiwr eich gwybodaeth fydd gwasanaeth Gofalu am Gaerffili.

Fodd bynnag, gall y cymorth a ddyrennir fod yn wasanaeth CBSC neu gall fod yn wasanaeth a gynigir gan sefydliad arall.

**Manylion am rannu'ch gwybodaeth**

Gyda'ch caniatâd, efallai y cewch eich atgyfeirio at wasanaeth arall, yn seiliedig ar eich anghenion. Ymhlith y gwasanaethau y gellir eich atgyfeirio atynt mae:

- Gwasanaethau eraill a weithredir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, a all gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:
    - Cartrefi Caerffili (gan gynnwys tîm Cymorth Tenantiaeth/Rhenti)
    - Tîm Budd-daliadau
    - Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (Gwasanaethau Cymdeithasol)
    - Cefnogi Pobl
    - Rhaglenni Cymorth Cyflogaeth
    - Sicrhau'r Incwm Uchaf

- Gwasanaethau a weithredir gan eraill gan gynnwys gwasanaethau cymunedol, a all gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:
    - Cyngor ar Bopeth
    - Rhwydwaith Rhieni Caerffili
    - Banciau Bwyd Trussell Trust a phrosiectau cysylltiedig eraill
    - Grwpiau cymunedol lleol

- Llamau
- Gwasanaethau Gofal Sylfaenol - gan gynnwys meddygon teulu

Os credir y gallai plentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed fod mewn perygl, mae dyletswydd gyfreithiol arnom ni i ymchwilio a dilynir Gweithdrefnau Diogelu Cymru, a allai arwain at ymchwiliad ac asesiad ffurfiol. Gall hyn gynnwys sawl asiantaeth fel yr heddlu, iechyd ac addysg. Ni fydd angen eich caniatâd i gael eich atgyfeirio at gael mynediad at y broses hon.

**Ceisiadau am wybodaeth**
Mae'n bosibl y bydd yr holl wybodaeth a gedwir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn destun ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a deddfwriaeth Diogelu Data.

Os bydd yr wybodaeth a ddarperir gennych yn destun cais o'r fath, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ymgynghori â chi ynghylch ei rhyddhau, lle bo hynny'n bosibl. Os byddwch yn gwrthwynebu rhyddhau eich gwybodaeth, byddwn yn cadw'r wybodaeth yn ei hôl, os bydd y ddeddfwriaeth berthnasol yn caniatáu i hynny ddigwydd.

## Am ba mor hir y byddwn yn cadw eich gwybodaeth?

**Manylion am y cyfnod cadw**

Mae pa mor hir y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cadw gwybodaeth yn cael ei bennu drwy ofynion statudol neu arfer gorau. Byddwn yn cadw'ch gwybodaeth am 7 mlynedd yn unol â gofynion cyllido Llywodraeth Cymru.

# Eich Hawliau (gan gynnwys y Weithdrefn Gwyno)

**Eich hawliau o dan y Ddeddf Diogelu Data**

Mae'r Ddeddf Diogelu Data yn rhoi nifer o hawliau i destun y data (y rheiny y mae'r wybodaeth yn sôn amdanynt):

- Hawl i gael mynediad at ddata gan y testun – mae ffurflenni cais ar gyfer y broses hon ar gael ar ein gwefan:
- Yr hawl i gael gwybod
- Yr hawl i gywiro
- Yr hawl i ddileu
- Yr hawl i gyfyngu ar brosesu
- Yr hawl i wrthwynebu
- Yr hawl i gludadwyedd data
- Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd.

Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau ar gael ar y wefan hon: www.ico.org.uk

Er mwyn arfer eich hawliau, cysylltwch â'r maes gwasanaeth y manylir arno ar frig y ffurflen hon.

**Y Weithdrefn Gwyno**

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi ymdrin â'ch cais/gwybodaeth, mae gennych chi'r hawl i gwyno. Cysylltwch â'r Maes Gwasanaeth a fanylir ar frig y ddogfen hon gan amlinellu eich materion.

Os byddwch yn parhau'n anfodlon, mae gennych hefyd yr hawl i gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.  Am ragor o wybodaeth am y broses gwyno, dilynwch y ddolen hon.

www.caerffili.gov.uk/My-Council/Data-protection-and-freedom-of-information/Questions-and-complaints?lang=cy-gb

# Crynodeb o'r Hysbysiad Preifatrwydd

## Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth

Bydd gwasanaeth Gofalu am Gaerffili yn darparu drws ffrynt i wasanaethau i ddarparu un pwynt cyswllt ar gyfer gwybodaeth, cyngor a chymorth i sicrhau bod anghenion trigolion yn cael eu diwallu'n briodol. Gyda'ch caniatâd, efallai y cewch eich atgyfeirio at wasanaeth cymorth arall a fydd â'r arbenigedd i gynorthwyo gyda'ch anghenion. Bydd hyn yn golygu rhannu eich gwybodaeth gyda nhw, ac efallai y byddant hefyd yn rhoi adborth i Gofalu am Gaerffili ar eich cynnydd. Gall y gwasanaeth cymorth a ddyrennir fod yn wasanaeth CBSC neu gall fod yn wasanaeth a gynigir gan sefydliad arall. Tasg gyhoeddus yw'r sylfaen gyfreithiol ar gyfer casglu'ch data, a byddwn yn cadw'ch gwybodaeth am 7 mlynedd.

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael gafael ar wybodaeth sydd gennym amdanoch chi a'r hawl i gwyno os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y mae eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu.

I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn prosesu'ch gwybodaeth a'ch hawliau, cliciwch ar y ddolen ganlynol:

{Hyperddolen i'r Hysbysiad Preifatrwydd Llawn ar ein gwefan}